# Cyngor Cymuned Mawddwy

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
☏ **01650 531 405**
**E bost: huwjones792@btinternet.com**

18fed Awst 2024

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY** ***Nos Fercher yr 28ain o Awst am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

……………………………………………………………………………………………

AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Orffennaf 2024 – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Llwybrau Priffyrdd a Chefnffyrdd.

b) Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy -derbyn y diweddaraf.

c) Cwyn am 2 garafan static – Min y Goedwig, Aberangell – derbyn y diweddaraf

d) Pwyllgor yr Hen Fynwent – derbyn y diweddaraf.

e) Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas – nodi yr e-bost diweddaraf..

f) Commonwealth War Graves Commission – nodi’r gohebiaeth ddiweddaraf.

g) Diffibrilator i Lanymawddwy

5**. Materion Cynllunio**

**Cais NP5/74/516**

Trosi garej ddomestig yn anecs a gosodiad gwyliau tymor byr - Ger-y-Llan, Llanymawddwy.

*(hwn wedi ei ddosbarthu eisoes i’r Cynghorwyr yn gwahodd ateb erbyn diwedd Gorffennaf)*

**Cais NP5/74/342A**

Dymchwel y tŷ presennol ac adeiladu tŷ newydd gyda garej integrol Tŷ'r Felin, Dinas Mawddwy, SY20 9LR

6. **Materion Cyllid.**

a) Nodi balansau y cyfrifon.

b) Anfonebau I’w talu;

   Cyngor Gwynedd – Toiledau cyhoeddus a gwasanaeth archwilio mewnol

7**.Gohebiaeth**

Cynlluniau Iechyd Bro Ddyfi – cyfarfod 22.08.24

E bost Heledd Parri o Grwp Cynefin ynglyn ag anghenion tai, a chynnig i ddod I’r Cyngor i drafod

Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru

Ymgyngoriad Cyngor Gwynedd ar newid y sustem bleidleisio.

8. **Unrhyw fater arall**